# Taflen Wybodaeth y Claf 23

## Deddf Iechyd Meddwl 1983

## Cleifion a Dderbyniwyd i Ysbyty o'r Llysoedd

### Hawliau i apelio

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth fanwl i chi am eich hawliau i apelio os ydych wedi cael eich derbyn i ysbyty o'r llysoedd. Awgrymir y dylech ofyn i eiriolwr iechyd meddwl annibynnol neu ofyn i'r unigolyn sydd â gofal am y ward eich helpu i fynd trwy'r daflen hon.

- Os bu llys ynadon yn ymdrin â'ch achos, ewch i Ran 1
- Os bu Llys y Goron yn ymdrin â'ch achos, ewch i Ran 2
- I gael gwybodaeth am Gymorth Cyfreithiol, ewch i Ran 3
- Os ydych dan 17 oed adeg cyflwyno'r gorchymyn sy'n awdurdodi eich derbyn i ysbyty, ewch i Ran 4.

### RHAN 1

**Cleifion y bu llysoedd ynadon yn ymdrin â'u hachos**

1. Os ydych wedi cael eich gwneud yn destun gorchymyn ysbyty dan adran 37 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ar ôl cael eich dyfarnu'n euog o drosedd, gallwch apelio i Lys y Goron. Os pledioch chi'n euog, dim ond yn erbyn y gorchymyn ysbyty y gallwch chi apelio. Os pledioch chi'n ddieuog, gallwch apelio yn erbyn yr euogfarn, y gorchymyn ysbyty neu'r naill a'r llall.

2. Pan fydd Llys y Goron yn gwrando ar apêl yn erbyn euogfarn, bydd yn ailwrando ar yr achos cyfan. Gall Llys y Goron gadarnhau, dileu neu newid penderfyniad y llys ynadon. Yn ogystal, gall anfon y mater yn ôl i'r llys yr apelir yn erbyn ei benderfyniad. Os yw apêl yn erbyn euogfarn wedi cael gwrandawiad ac wedi'i gwrthod, neu os apeliwyd yn erbyn y gorchymyn ysbyty'n unig, gall Llys y Goron newid unrhyw gosb arall y gallai'r ynadon fod wedi'i rhoi'n wreiddiol yn hytrach na chadarnhau'r ddedfryd bresennol (os yw o'r farn bod hynny'n briodol).

3. Os cyflwynodd y llys ynadon orchymyn ysbyty dan adran 37(3) o'r Ddeddf heb euogfarnu, gallwch apelio yn erbyn y gorchymyn ysbyty os ydych yn dymuno. Wrth wrando ar apêl yn erbyn gorchymyn ysbyty mewn amgylchiadau o'r fath, bydd gan Lys y Goron yr un pwerau â phe bai'r apêl wedi'i chyflwyno yn erbyn yr euogfarn a'r ddedfryd.

4. Os cawsoch eich euogfarnu gan lys ynadon a'ch traddodi i Lys y Goron i gael eich dedfrydu, gallwch apelio i Lys y Goron yn erbyn eich euogfarn.

5. Gallwch gynnal eich apêl eich hun neu gallwch gyfarwyddo cyfreithiwr i gynnal apêl ar eich rhan yn breifat neu dan y cynllun cymorth cyfreithiol (gweler paragraff 8 isod).

6. Rhaid i'r Hysbysiad am Apêl fod yn hysbysiad ysgrifenedig, a rhaid iddo gael ei lofnodi gennych chi neu ar eich rhan. Rhaid iddo ddatgan a yw'r apêl yn erbyn yr euogfarn, y ddedfryd neu'r naill a'r llall. Rhaid anfon yr hysbysiad at Glerc y llys ynadon a gyflwynodd y gorchymyn ysbyty, a rhaid ei anfon at yr erlynydd hefyd. Rhaid gwneud hynny mewn da bryd fel bod yr apêl yn dod i law'r Clerc a'r erlynydd cyn pen 21 diwrnod (tair wythnos) i'r diwrnod y rhoddwyd penderfyniad y llys. Os bydd y llys ynadon yn gohirio eich dedfrydu ar ôl yr euogfarn, bydd y terfyn amser ar gyfer apelio yn erbyn yr euogfarn yn cychwyn ar y dyddiad yr ymdriniodd y llys â'ch achos.

7. Fodd bynnag, mae gan Lys y Goron y pŵer i roi cyfarwyddyd i ymestyn yr amser ar gyfer cyflwyno'r Hysbysiad am Apêl. Os hoffech chi i Lys y Goron gyflwyno cyfarwyddyd o'r fath, bydd yn rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig i swyddog priodol y Llys gan nodi'r rhesymau dros wneud y cais. Bydd yn rhaid i chi hysbysu'r erlynydd os bydd y Llys yn rhoi cyfarwyddyd.

8. Gallwch gael cymorth cyfreithiol i baratoi a chynnal eich apêl, os yw'n ymddangos i'r llys:

   i. y byddai'n ddymunol rhoi cymorth cyfreithiol i chi er budd cyfiawnder, a

   ii. nad oes gennych ddigon o fodd ariannol i dalu costau'r apêl.

   Os hoffech chi wneud cais am gymorth cyfreithiol, dylech wneud hynny cyn gynted ag sy'n bosibl. Gallwch wneud cais i'r llys ynadon a gyflwynodd y gorchymyn ysbyty, neu gallwch wneud cais i Ganolfan Llys y Goron a fyddai'n gwrando ar yr apêl. Gellir gwneud cais i'r llys naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar pan fyddwch yn ymddangos yno.

## RHAN 2

### Cleifion y bu Llys y Goron yn ymdrin â'u hachos

9. Gallwch apelio i'r Llys Apêl (Adran Troseddau):

   a. os ydych yn destun gorchymyn ysbyty ar ôl cael eich euogfarnu gan Lys y Goron; neu

   b. os gwelwyd eich bod dan anabledd (hy nad ydych yn ffit i bledio) dan Ddeddf Trefniadaeth Droseddol (Gorffwylltra) 1964; neu

   c. os dyfarnwyd eich bod yn ddieuog oherwydd gorffwylltra.

10. Gallwch apelio yn erbyn eich euogfarn, eich dedfryd neu'r naill a'r llall. Bydd yn rhaid cyflwyno Hysbysiad cyn pen 28 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad yr apelir yn ei erbyn. Bydd angen caniatâd y Llys Apêl, oni bai:

    i. eich bod yn apelio yn erbyn euogfarn ac ar bwynt cyfreithiol yn unig;

    ii. fod barnwr y treial neu'r barnwr sy'n dedfrydu'n cadarnhau bod yr achos yn addas ar gyfer apêl.

    (Mae hynny'n berthnasol i apeliadau yn erbyn dedfryd yn ogystal ag apeliadau yn erbyn euogfarn).

11. Os ydych yn destun gorchymyn ysbyty a gorchymyn sy'n cyfyngu ar eich rhyddhau, ar ôl i chi gael eich euogfarnu gan lys ynadon a chael eich dedfrydu wedyn gan Lys y Goron, bydd gennych hawl debyg i apelio yn erbyn y ddedfryd cyn pen 28 diwrnod.

12. Mewn apêl yn erbyn gorchymyn ysbyty a/neu orchymyn sy'n cyfyngu ar eich rhyddhau a gyflwynwyd adeg eich euogfarnu, gall y Llys Apêl ddileu'r gorchymyn a rhoi rhyw ddedfryd arall, ond ni ddylai'r ddedfryd honno fod yn llymach na'r ddedfryd a roddwyd gan Lys y Treial o ystyried yr achos yn ei gyfanrwydd. Mewn apêl yn erbyn rheithfarn 'dieuog' oherwydd gorffwylltra, gall y Llys Apêl eich rhyddfarnu neu gall newid rheithfarn 'euog' mewn perthynas â'r trosedd y cawsoch eich cyhuddo o'i chyflawni neu unrhyw drosedd arall y gallai'r rheithgor fod wedi eich cael yn euog ohono.

Os bydd y Llys Apêl yn newid rheithfarn o'r fath, bydd yn dedfrydu mewn perthynas â'r trosedd hwnnw. Mewn apêl yn erbyn canfyddiad bod y sawl a gyhuddwyd dan anabledd (nad oedd yn ffit i bledio), gall y Llys Apêl ddileu'r canfyddiad a rhyddfarnu'r apelydd os daethpwyd i benderfyniad ynghylch ffitrwydd ar ôl yr areinment. Mewn unrhyw achos arall gall y llys, wrth ganiatáu apêl yn erbyn canfyddiad o anabledd, orchymyn i chi sefyll eich prawf am y trosedd yr ydych wedi eich cyhuddo o'i chyflawni.

13. Rhaid i chi gyflwyno Hysbysiad am Apêl neu Rybudd o Gais am ganiatâd i apelio ar y ffurflen benodedig. Gellir cael copïau o'r ffurflen honno ar:

    The Registrar of Criminal Appeals
    Criminal Appeals Office
    Royal Courts of Justice
    Strand
    London WC1A 2LL

    Rhaid sicrhau bod rhesymau rhesymegol dros apelio'n cael eu cyflwyno gyda'r hysbysiad.

14. Os hoffech chi apelio ond na fyddwch yn gwneud hynny cyn pen y cyfnod o 28 diwrnod y soniwyd amdano uchod, gallwch wneud cais i'r Llys Apêl i ymestyn yr amser. Gellir gwneud y cais hwn ar y ffurflen benodedig ar gyfer cyflwyno Hysbysiad am Apêl. Rhaid cynnwys y rhesymau dros apelio yn yr amgylchiadau hyn hefyd.

15. Gallwch gael copi o unrhyw ddogfen sydd ei hangen ar gyfer yr apêl gan y Cofrestrydd, ac eithrio unrhyw drawsgrifiad o achos yn Llys y Goron. Bydd y Cofrestrydd yn darparu unrhyw ddogfennau sydd eu hangen arnoch fel y gwêl yn ddoeth. Efallai y bydd yn gofyn i chi dalu'r ffïoedd awdurdodedig. Bydd modd i chi gael gafael ar drawsgrifiad yn breifat gan yr ysgrifenwyr llaw-fer dan sylw, o dalu eu ffïoedd nhw.

## RHAN 3

### Cymorth Cyfreithiol

16. Os byddwch yn gwneud cais am gymorth cyfreithiol, bydd yn rhaid i chi gyflwyno datganiad ynghylch modd ariannol fel rheol, ond gall y llys hepgor y gofyniad hwn os yw'n ymddangos nad ydych yn gallu cyflwyno datganiad o'r fath oherwydd eich cyflwr corfforol neu feddyliol. Gellir rhoi cymorth cyfreithiol cyhyd â bod ernes yn cael ei thalu mewn perthynas ag unrhyw gyfraniad y gallai'r llys fod yn ei wneud yn dilyn hynny. Bydd y penderfyniad i gyflwyno gorchymyn cyfrannu'n dibynnu ar eich modd ariannol. Ni fydd yn dibynnu ar ganlyniad yr apêl. Gellir cyflwyno gorchymyn o'r fath os yw'n ymddangos i'r llys bod gennych ddigon o fodd ariannol i gyfrannu at y costau. Os ydych dan 16 oed, efallai y bydd gofyn i chi a chyfrannwr priodol (mam, tad neu dad tebygol) lunio datganiad ynghylch modd ariannol a chyfrannu at gostau'r apêl. Efallai y bydd gofyn i bobl sy'n gyfrifol yn ariannol am ymgeiswyr dan 18 oed, ond nad ydynt yn gyfranwyr priodol, lunio datganiad ynghylch modd ariannol, ac efallai y bydd eu hadnoddau ariannol yn cael eu hystyried at ddiben asesu unrhyw gyfraniad at gostau cymorth cyfreithiol.

17. Gallwch wneud cais i'r Llys Apêl am gymorth cyfreithiol er mwyn cael cyngor ynghylch rhesymau posibl dros apelio, ac os oes rhesymau o'r fath yn bodoli, gallwch wneud cais am gynrychiolaeth yng ngwrandawiad yr apêl. Os cawsoch gymorth cyfreithiol yn Llys y Goron, bydd gennych hawl i gael cyngor ynghylch rhesymau posibl dros apelio, cymorth i gyflwyno rhybudd o gais a chymorth â materion rhagarweiniol eraill. Os nad ydych wedi cael cyngor o'r fath, dylech ysgrifennu at y cyfreithiwr dan sylw a gofyn am gyngor cyn y cyfnod arferol ar gyfer cyflwyno rhybudd o gais am ganiatâd i apelio. Os hoffech chi apelio felly, neu os ydych yn credu y gallai fod gennych resymau dros apelio, rhaid i chi sicrhau eich bod yn hysbysu'r Llys Apêl Troseddol yn ystod y cyfnod dan sylw, p'un a ydych wedi gwneud cais i gyfreithiwr am gyngor a chymorth ai peidio. Os na chawsoch gymorth cyfreithiol yn Llys y Goron,

neu os cawsoch wared â'ch ymgynghorwyr cyfreithiol cyn i'r achos ddod i ben, gallwch wneud cais i'r Llys Apêl am gymorth cyfreithiol (ar gyfer cael cyngor ynghylch rhesymau posibl dros apelio'n unig) a chymorth i baratoi'r ceisiadau angenrheidiol. Gall ymgeisydd nad yw'n cael cymorth ofyn am gyngor a chymorth gan gyfreithiwr dan y cynllun "ffurflen werdd", sy'n caniatáu i gyfreithiwr roi cyngor gwerth hyd at £40 i rywun sy'n gymwys yn ariannol.

18. Gallwch wneud cais i farnwr y treial, os yw wedi cadarnhau bod yr achos yn addas ar gyfer apêl, neu wneud cais i'r Llys Apêl yn gofyn am gael eich derbyn i fechnïaeth wrth ddisgwyl am benderfyniad ynghylch yr apêl.

19. Mae gennych hawl i fod yn bresennol yng ngwrandawiad eich apêl os ydych yn dymuno, oni bai eich bod yn destun amodau cadw a bod yr apêl yn cael ei chyflwyno ar sail rhyw reswm sy'n ymwneud â mater cyfreithiol yn unig, neu os yw'r apêl yn cael ei chyflwyno yn erbyn canfyddiad o anabledd neu reithfarn 'dieuog' oherwydd gorffwylltra. Nid oes gennych hawl i fod yn bresennol yng ngwrandawiad eich cais am ganiatâd i apelio, neu unrhyw achosion rhagarweiniol neu atodol mewn perthynas ag apêl.

20. Gall un o farnwyr y llys wneud penderfyniad ynghylch unrhyw gais am ganiatâd i apelio neu ymestyn amser, neu gais arall rhagarweiniol mewn perthynas ag apêl, a bydd yr apelydd yn cael gwybod am ei benderfyniad. Os bydd barnwr yn gwrthod eich cais, ac os na fyddwch am i'r Llys Apêl llawn ddod i benderfyniad yn ei gylch neu os na fyddwch yn cyflwyno'r Cais i'r Cofrestrydd er mwyn cael penderfyniad yn ei gylch gan y Llys Apêl, bydd penderfyniad y barnwr i wrthod eich cais yn derfynol.

21. Gallwch roi'r gorau i'ch apêl trwy hysbysu'r Cofrestrydd. Dan reol 65.13 o'r Rheolau Apeliadau Troseddol, bernir bod yr apêl yn cael ei gwrthod gan y Llys Apêl pan gyflwynir hysbysiad o'r fath.

## RHAN 4

### Cleifion sydd dan 17 oed adeg cyflwyno'r gorchymyn sy'n awdurdodi eu derbyn i ysbyty

22. Os ydych dan 17 oed a'ch bod wedi cael eich gwneud yn destun gorchymyn ysbyty â gorchymyn cyfyngu neu heb orchymyn cyfyngu yn ystod achos troseddol, neu eich bod wedi eich cael yn ddieuog oherwydd gorffwylltra neu anffitrwydd i bledio, bydd gennych yr un hawliau i apelio â'r rhai y soniwyd amdanynt uchod ar gyfer unigolion dros 17 oed.

23. Os ydych dan 17 oed, bydd gennych hawl i apelio i Lys y Goron os cafodd y gorchymyn ysbyty ei gyflwyno mewn achos gofal dan Adran 1 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1969. Yn ogystal, gallwch apelio yn erbyn gorchymyn gofal a gyflwynwyd ar y cyd â'r gorchymyn ysbyty mewn achos gofal. Gall yr apêl hon gael ei chyflwyno gennych chi neu ar eich rhan gan eich rhiant neu'ch gwarcheidwad.

## Cod Ymarfer Cymru

Mae Cod Ymarfer Cymru yn rhoi cyngor i staff ynghylch Deddf Iechyd Meddwl 1983. Bydd yn rhaid iddynt feddwl am yr hyn y mae'r Cod yn ei ddweud pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ynghylch eich gofal. Gallwch ofyn am gael gweld copi o'r Cod, neu gallwch ofyn am gopi o'r llyfryn 'Tawelwch Meddwl' sy'n sôn am God Ymarfer Cymru.

## Mwy o wybodaeth a help

Os oes unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall ynglŷn â'ch gofal a'ch triniaeth, bydd aelod o'r staff yn barod i'ch helpu. Gofynnwch i un o'r staff am esboniad os oes unrhyw beth yn aneglur yn y ffurflen hon, neu os oes gennych fwy o gwestiynau.

Mae'r gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol ar gael hefyd i'ch helpu a'ch cefnogi.

Cofiwch ofyn os hoffech gael copi o'r daflen hon i'w roi i rywun arall.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49865
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg